COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCTRATAIDD A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 13 MEHEFIN 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd T Thomas – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| H T Bennett | R M Granville | E D Winstanley |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| P Ford | M L Hughes | I M Spiller | G Walter |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM James

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 10. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyn Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y dyddiad 08/02/2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mehefin 2024 |

## 11. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth, gan ei nodi, yn ddibynnol ar yr ychwanegiadau canlynol:<br><br>• Bod manylion presenoldeb y Pwyllgor yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu hychwanegu i'r adroddiad ym mharagraff 3.3;<br>• Bod unrhyw wybodaeth bellach i gael ei darparu i gyfarfodydd yr Is-bwyllgorau ddelio gydag Absenoldeb oherwydd Aelod o'r Teulu ym mharagraff 3.6;<br>• Bod angen nodi'r oriau, p'un ai yn llawn amser neu'n rhan amser ar gyfer staff y Gwasanaethau Democrataidd a restrir yn yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mehefin 2024 |

## 12. Diweddariad Rhaglen Datblygu Aelodau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bu i’r Pwyllgor:<br><br>a) Nodi'r adroddiad a'r atodiadau:<br>b) Gwneud cais am i hyfforddiant ychwanegol gael ei ddarparu i Aelodau ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a hefyd am i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd archwilio a oedd posib i'r hyfforddiant ar gyfer y Cyfryngau oedd wedi ei adnabod ar gyfer aelodau o'r Cabinet hefyd gael ei ymestyn i Aelodau eraill;<br>c) Gwneud cais am i unrhyw gofnodion presenoldeb hyfforddiant yn y dyfodol oedd yn cael eu cyhoeddi neu eu darparu ar gyfer Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth adnabod pa hyfforddiant oedd yn orfodol, a beth oedd ddim yn orfodol; |

| | |
|---|---|
| | d) Gwneud cais am nodiadau atgoffa mwy rheolaidd i Aelodau ynghylch eu modiwlau e-ddysgu gorfodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mehefin 2024 |

## 13. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr eitemau ar gyfer Blaenraglen Waith y Pwyllgorau.<br><br>Holodd yr Aelodau p'un ai a fyddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad yn y dyfodol ynghylch sut roedd y gofyn am ddull adnabod pleidleiswyr wedi cael effaith ar y nifer a bleidleisiodd mewn etholiadau diweddar. Er eglurder, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd nad oedd hyn o reidrwydd yn disgyn oddi mewn i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, ond y gallai hyn gael ei ddarparu o bosib fel papur briffio gwybodaeth i bob Aelod, ac y byddai'n edrych ar hyn.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd archwilio sut roedd y tîm Cyfathrebu yn bwriadu rhoi gwybod am y gofyn hwn yn ystod yr etholiadau oedd i ddod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mehefin 2024 |

## 14. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mehefin 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10.46